**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol**
**Constitutional Affairs Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

10 Awst 2010

Annwyl Gydweithiwr

**Drafftio Mesurau Llywodraeth Cymru: gwersi a ddysgwyd yn ystod y tair blynedd gyntaf**

Mae Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol y Cynulliad Cenedlaethol wedi cytuno i gynnal ymchwiliad byr ar ôl toriad yr haf i'r dull o ddrafftio Mesurau Llywodraeth Cymru, ac i'r gwersi y gellir eu dysgu o'r profiadau a gafwyd yn ystod tair blynedd gyntaf y trydydd Cynulliad.

**Cefndir**

Ers mis Mai 2007, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi pasio un ar ddeg Mesur gan ddefnyddio'r pwerau a roddwyd iddo gan Ran 3 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* – wyth ohonynt yn ddeddfwriaethau Llywodraeth Cymru. Mae chwe Mesur Llywodraeth arall wedi'u cyhoeddi ac yn cael eu hystyried gan y Cynulliad ar hyn o bryd.

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i ymchwilio i'r materion cyffredinol sydd o bwys, os oes rhai, sydd wedi, neu a all ddeillio o'r ffordd y mae'r Mesurau hyn wedi'u drafftio. Yn benodol, bydd y Pwyllgor yn edrych ar unrhyw wersi y gellir eu dysgu o'r ffordd y cafodd Mesurau eu drafftio yn y gorffennol i'w defnyddio i ddrafftio Mesurau yn y dyfodol.

**Gwahoddiad i gyflwyno tystiolaeth**

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu eich sylwadau, ac, yn benodol, eich sylwadau am y pwyntiau a ganlyn:

- Y cydbwysedd rhwng yr hyn a gynhwysir ar wyneb Mesurau a'r hyn a ddarperir ar ei gyfer yn y rheoliadau;
- I ba raddau y defnyddir iaith glir i ddrafftio Mesurau, ac i ba raddau y mae'r Mesurau yn rhoi eglurder cyfreithiol;
- I ba raddau y mae Memoranda Esboniadol yn darparu canllawiau defnyddiol ar gyfer Mesurau arfaethedig;

Ffôn / Tel: 029 2089 8154
Ffacs / Fax: 029 2089 8021
Minicom: 029 2082 3280
E-bost / E-mail: legislation.committee@cymru.gov.uk

- I ba raddau y mae Asesiadau Effaith Rheoleiddiol yn darparu asesiadau cadarn o effeithiau tebygol Mesurau arfaethedig; ac
- Unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol i'r ymchwiliad yn eich barn chi.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg, a bydd yn ystyried yr ymatebion ar ôl toriad yr haf. Yn ogystal ag ystyried cyfraniadau ysgrifenedig, bydd y Pwyllgor hefyd yn cynnal nifer gyfyngedig o sesiynau casglu tystiolaeth ar lafar.

Gellir cyflwyno cyfraniadau ar gopïau caled neu'n electronig i Glerc y Pwyllgor drwy ddefnyddio'r cyfeiriadau canlynol:

Clerc y Pwyllgor
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol
Y Swyddfa Ddeddfwriaeth
Tŷ Hywel
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd CF99 1NA

e-bost: legislation.committee@cymru.gov.uk

Sicrhewch fod eich tystiolaeth yn cyrraedd erbyn 24 Medi 2010. Efallai na fydd yn bosibl ystyried unrhyw ymatebion sy'n ein cyrraedd ar ôl y dyddiad hwn.

Ceir rhagor o wybodaeth am y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol, a chanllawiau ar sut i gyflwyno tystiolaeth, mewn atodiad i'r llythyr hwn.

Os hoffech ragor o wybodaeth neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Steve George, Clerc y Pwyllgor, ar 029 2089 8242 neu Olga Lewis, Dirprwy Glerc y Pwyllgor, ar 029 2089 8155.

Yn gywir,

Janet Ryder.

**Janet Ryder AC**
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

Ffôn / Tel: 029 2089 8154
Ffacs / Fax: 029 2089 8021
Minicom: 029 2082 3280

E-bost / E-mail: legislation.committee@cymru.gov.uk

**Atodiad**

**Drafftio Mesurau Llywodraeth Cymru: gwersi a ddysgwyd yn ystod y tair blynedd gyntaf**

**Cylch gwaith y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol**

Mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol yn ystyried agweddau technegol ar yr holl offerynnau statudol neu'r offerynnau statudol drafft a wneir gan Weinidogion Cymru gan gyflwyno adroddiadau'n nodi a ddylai'r Cynulliad roi sylw arbennig i'r offerynnau ar unrhyw un o'r seiliau a restrir yn Rheol Sefydlog 15.2.

Yn ogystal, gall y Pwyllgor ystyried a chyflwyno adroddiad ar ba mor briodol yw darpariaethau mewn Mesurau Cynulliad arfaethedig sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol wneud is-ddeddfwriaeth. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gallu ystyried a chyflwyno adroddiadau ar unrhyw fater deddfwriaethol cyffredinol sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol neu Weinidogion Cymru neu'n ymwneud â'u cymhwysedd.

**Canllawiau ar gyflwyno cyfraniadau ysgrifenedig**

Wrth baratoi eich cyfraniad, dylech gadw'r pwyntiau a ganlyn mewn cof:

***Y wybodaeth i'w chynnwys***

Fel rheol, dylai tystiolaeth ysgrifenedig gynnwys **memorandwm hunangynhwysol** yn ogystal â llythyr eglurhaol. Dylid cyflwyno tystiolaeth sydd **mor gryno â phosibl** (ni ddylai'r memorandwm fod yn fwy na chwe thudalen A4 o hyd)

Dylai'r **llythyr eglurhaol** nodi:

- **enw a manylion cyswllt** yr unigolyn neu'r sefydliad sy'n cyflwyno'r dystiolaeth;
- os yw'r dystiolaeth yn cael ei chyflwyno ar ran sefydliad neu unigolyn;
- **unrhyw gais i gyflwyno tystiolaeth lafar**;
- unrhyw gais i'r Pwyllgor drin rhan neu'r cyfan o'r dystiolaeth yn **gyfrinachol**, gan nodi'r rhesymau dros hynny.

  (Mae'n arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus, er mwyn i'r cyhoedd graffu arnynt ac fel bod Aelodau'r Cynulliad yn gallu'u gweld a'u trafod mewn cyfarfodydd Pwyllgor.

  **Os nad ydych am i ni gyhoeddi eich ymateb neu'ch enw, mae'n bwysig eich bod yn nodi hyn yn glir wrth gyflwyno'ch tystiolaeth a'ch rhesymau dros hynny.** Fodd bynnag, dylech fod yn ymwybodol na fydd eich tystiolaeth o bosibl

yn dylanwadu cymaint ar ystyriaethau'r Pwyllgor. Dylech fod yn ymwybodol hefyd y gellir cyhoeddi neu ddatgelu'r wybodaeth a roddir gennych yn eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth am gwmni, a hynny yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.)

Dylai'r **memorandwm** gynnwys y wybodaeth a ganlyn:

- **crynodeb** o'r prif bwyntiau a wnaed yn eich tystiolaeth;
- **cyflwyniad cryno** i'r unigolyn neu'r sefydliad sy'n cyflwyno'r dystiolaeth, gan nodi eu maes arbenigedd;
- unrhyw **wybodaeth ffeithiol** sydd gennych i'w chynnig y gallai'r Pwyllgor ei defnyddio i ddod i gasgliadau, neu y gellir ei chyflwyno i dystion eraill i weld beth yw eu hymateb;
- unrhyw **argymhellion** y mae'r cyflwynydd am i'r Llywodraeth, neu rywrai eraill, eu gweithredu ac y gallai'r Pwyllgor eu hystyried a'u cynnwys yn ei adroddiad i'r Cynulliad;
- Dylai eich ymateb drafod y materion y mae'r Pwyllgor yn eu hystyried, yn enwedig y rhai a amlinellwyd yn y gwahoddiad hwn i gyflwyno tystiolaeth.

  (Dylech gymryd gofal rhag **cynnwys sylwadau am faterion sydd gerbron llys barn ar hyn o bryd**, neu faterion sydd ar fin mynd drwy lys barn. Os ydych yn rhagweld y bydd hyn yn digwydd, dylech drafod â Chlerc y Pwyllgor sut y gallai hyn effeithio ar y dystiolaeth ysgrifenedig y gallwch ei chyflwyno.)

***Sut i fformadu eich tystiolaeth***

Rhai pwyntiau i'w nodi:

- **Dylid rhifo paragraffau** i gynorthwyo'r Pwyllgor wrth iddo drafod y dystiolaeth yn ystod sesiynau llafar.
- Mae croeso i chi gynnwys **deunydd atodol** gyda'ch memorandwm—er enghraifft taflenni neu erthyglau o gyfnodolion—ond dylech sicrhau fodd bynnag bod eich memorandwm yn hunangynhwysol.
- Os ydych am ddefnyddio lliw yn eich tystiolaeth, sicrhewch bod modd gwneud synnwyr o'r dystiolaeth ar ffurf du a gwyn hefyd oherwydd gall aelodau o'r Pwyllgor benderfynu defnyddio fersiynau sydd wedi'u llungopïo yn ystod y Pwyllgor.
- Os ydych yn cyflwyno tystiolaeth ar ffurf electronig, dylai'ch memorandwm fod ar fformat **Microsoft Word, Rich Text neu PDF**.

Ffôn / Tel: 029 2089 8154
Ffacs / Fax: 029 2089 8021
Minicom: 029 2082 3280

E-bost / E-mail: legislation.committee@cymru.gov.uk